



CABINET

COFNODION CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDYD TRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 21 GORFFENNAF 2021 AM 10.30 A.M.

PRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelwch y Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), E. Stenner (Perfformiad, yr Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a'r Ffilyd) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr) R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn Bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), H. Lancaster (Uwch Swyddog Cyfathrebu), V. Doyle (Swyddog Polisi), P. Warren (Swyddog Arweiniol Strategol dros Wella Ysgolion), P. O'Neill (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), S. Ellis (Swyddog Arweiniol dros Gynhwysiant) M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Gyrrwr) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Y Cynghorydd C. Mann

TREFNIADAU COFNODI A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod trwy wefan y Cyngor - – [Cliciwch Yma i'w Wyllo](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151)

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 7 GORFFENAF 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd ar gyfer 29 Medi 2021. Atgoffwyd yr aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen waith ac felly'n destun newid.

Ar ôl ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i nodi'r Flaenraglen Waith, yn amodol ar yr adroddiad ychwanegol a enwyd. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy bleidlais o godi dwylo.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried ychwanegu eitem ar y Flaenraglen Waith ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 1 Medi 2021, sef adroddiad ar Montclair Avenue – Atgyweirio Cwlfertau.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. CRONFA YMRYMUSO'R GYMUNED

Ystyriwyd adroddiad oedd yn cyflwyno ffordd arfaethedig o weithredu o ran cyflawni Cronfa Ymrymuso'r Gymuned newydd ac yn gofyn am gadarnhad i'w meini prawf arfaethedig a threfniadau rheoli grantiau. Gofynnwyd barn y Cabinet ar y gefnogaeth briodol roedd ei hangen i alluogi Aelodau Etholedig i fod yn bencampwyr effeithiol i Gronfa Ymrymuso'r Gymuned ar draws eu cymunedau.

Nododd y Cabinet bod y Cyngor yn canolbwyntio ar gryfhau ymhellach y perthnasau rhyngddo a'i gymunedau, ei drigolion, busnesau a grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Roedd o fudd i Fwrdeistref Sirol Caerffili fod ganddi sector gwirfoddol a chymunedol fywiog a gweithredol, sy'n cynnig cyfle sylweddol i gael gymaint ag y bo modd o gyfranogiad cymunedol.

Cyfeiriwyd at yr arolwg diweddar o'r trigolion, 'Trafodaeth Caerffili', lle'r oedd 78% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo ei bod yn awgrym cadarnhaol i wneud cyllideb gymunedol ar gael i drigolion, er mwyn eu galluogi i wneud mwy o bethau drostynt eu hunain yn y dyfodol. Roedd 89% hefyd yn cytuno y byddai cynnig cymhellion i gymunedau'n debygol o'u hannog i gymryd mwy o falchder yn eu hardal.

Roedd yr adroddiad yn disgrifio ffordd arfaethedig o weithredu'r gronfa, ynghyd â drafft o ffurflen gais, canllawiau i'r gronfa a chanllawiau drafft ar gyfer Aelodau Ward.

Gofynnwyd am eglurhad sef a allai Canolfannau Cymunedol a Phwyllgorau Rhandiroedd wneud cais i'r gronfa. Atebwyd y gallent wneud cais cyn belled ag y bo gan y grwpiau hynny gyfansoddiad ffurfiol.

Gofynnwyd hefyd a allai Cyngorau Cymuned wneud cais. Eglurwyd na allent wneud cais ond y gallent chwarae rhan bwysig mewn codi ymwybyddiaeth o'r gronfa a chanfod pa grwpiau cymunedol allai wneud cais a chael budd ohono.

Trafododd y Cabinet yr oblygiadau ar gyfer noddi gan Aelodau o'r Fwrdeistref Sirol, o ran datgan budd. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai angen i Aelodau fod yn ofalus yn hynny, a sicrhau eu bod yn cwblhau ffurflen datgan budd i egluro eu cysylltiad a'u budd yn y grŵp oedd yn cael ei noddi. Nodwyd y byddai canllawiau Datgan Budd yn rhan o'r rhaglen hyfforddi ehangach ar Gronfa Ymrymuso'r Gymuned, fyddai'n digwydd trwy gydol yr haf. Rhoddwyd sicrhad na fyddai unrhyw ddatganiad o'r fath yn atal nac yn anghymwysu grŵp lle'r oedd Cynghorydd yn aelod etholedig o'r pwyllgor. Awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai Aelodau gysylltu ag ef i gael cyngor os oeddent yn ansicr o natur y budd.

Nododd y Cabinet bod y Gronfa'n elfen bwysig o'r Strategaeth Trawsnewid, trwy gyflawni prosiectau lleol a enwyd gan y trigolion eu hunain. Byddai Aelodau Etholedig fel Arweinyddion Cymunedol yn chwarae rhan hanfodol mewn codi proffil y cynllun hwn, allai wneud gwahaniaeth anhygoel i gymunedau. Nodwyd y byddai llawer o waith caled o ran gweinyddu'r gronfa ac y byddai'r lefel o gefnogaeth roedd ei angen ar gyfer prosesu yn cael ei fonitro.

Cofnododd y Cabinet eu diolchgarwch i Swyddogion am yr holl waith caled yn dod â'r adroddiad ymlaen, a chroesawyd y cynllun hwn fel ffordd o ymrymuso a chyfoethogi cymunedau. Roedd modd cymryd perchnogaeth o brosiectau oedd o bwys i gymunedau, a phwysleisiwyd pwysigrwydd tynnu sylw at y gronfa fel nad oedd grwpiau cymunedol yn colli'r cyfle cyffrous hwn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn, trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD: -

1. Cadarnhau'r ffordd arfaethedig o weithredu Cronfa Ymrymuso'r Gymuned a'r meini prawf ariannu a'r trefniadau i reoli grantiau ar gyfer y gronfa.
2. Nodi barn y Cabinet ar y gefnogaeth briodol i alluogi Aelodau Etholedig i fod yn bencampwyr effeithiol i Gronfa Ymrymuso'r Gymuned ar draws eu cymunedau.
3. Cefnogi adolygu Cronfa Ymrymuso'r Gymuned ar ôl 12 mis, er mwyn adolygu faint o ddefnydd a wnaethpwyd o'r gronfa hyn hynny a chanfod a lliniaru unrhyw rwystrau i'r cynllun ddoi i'r golwg.

6. COMPENDIWM CYNHWYSIANT

Ystyriwyd adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r Compendiwm Cynhwysiant newydd.

Dywedwyd wrth y Cabinet y datblygwyd y Strategaeth mewn ymgynghoriad gyda Staff Awdurdod Lleol, ysgolion, rhieni, gofawyr, plant, Llywodraethwyr a phartneriaid o lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Roedd y Strategaeth yn edrych ar rolau a chyfrifoldebau ysgolion a phartneriaethau allweddol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), gwasanaethau lleol a rhanbarthol, ysgolion, lleoliadau gofal plant a lleoliadau addysg eraill. Gwnâi hynny gan bwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda'i gilydd i ddeall a chefnogi anghenion pob plentyn a'r ymrwymiad i'r rhai oedd fwyaf bregus.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Atodiadau 3-9 o'r adroddiad, oedd yn cynnwys y pecyn o ddogfennau yr oedd y Strategaeth Cynhwysiant yn sail iddynt. Nodwyd y gellid edrych ar y strategaeth fel dogfen oedd yn sefyll ar ei phen ei hunan neu fel rhan o'r compendiwm cyfan.

Cyflwynodd Sarah Ellis (Pennaeth Cynhwysiant) grynodedb o'r Compendiwm Cynhwysiant a'i hanes hyd yma. Nododd y Cabinet sut yr oedd Prifathrawon, Llywodraethwyr, Cydweithwyr Addysg a Phobl Ifanc yn ymwneud â hyn. Hefyd sut gai ei ddefnyddio i drawsnewid y sefyllfa o fod pobl yn cael eu cau allan i sefyllfa o gael eu cynnwys, a sicrhau deilliannau i blant a phobl ifanc, gyda llesiant a'u perthynas gyda phobl eraill yn greiddiol iddo.

Cofnododd y Cabinet ei ddiolchgarwch i bawb fu'n cymryd rhan yn y darn eithriadol hwn o waith, gan gydnabod yr heriau wrth ddod â ffyrdd o weithredu at ei gilydd a fyddai'n galluogi ysgolion ac yn rhoi'r grym iddynt i ddarparu'r gefnogaeth gywir i'r bobl gywir ar yr adeg iawn.

Cofnododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol hefyd ei ddiolch i bawb oedd wedi gweithio mor galed ar y strategaeth. Pwysleisiodd bod y compendiwm yn tynnu at ei gilydd bawb oedd yn gweithio ar y cyd i sicrhau'r gorau bosibl i'r dysgwyr, wrth iddynt symud o gael eu cau allan i gael eu cynnwys. Dywedodd ei fod yn enghraifft aruthrol o ethos Tîm Caerffili.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn, trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r Compendiwm Cynhwysiant.

7. STRATEGAETH YMGYSYLLTU A DILYNIANT (NEET)

Ystyriwyd adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu a Dilyniant (NEET – Pobl nad ydynt mewn Addysg Cyflogaeth neu Hyfforddiant) a materion cysylltiedig.

Nododd y Cabinet y datblygwyd y strategaeth NEET mewn ymgynghoriad â Staff Awdurdod Lleol, Prifathrawon, Pobl Ifanc ac aelodau o fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Caerffili. Roedd yn datgan yn eglur sut roedd pawb oedd yn rhan o hyn yn bwriadu ymdrin ar y cyd â'r materion cysylltiedig ar draws nifer o wahanol asiantaethau. Roedd yn ogystal yn rhoi amlinelliad o pam fod rhai pobl ifanc yn mynd yn NEET, a'r canlyniadau'n gysylltiedig â hynny.

Roedd y Strategaeth ar sail gwybodaeth oddi wrth gynlluniau allweddol mewnol ac allanol, yn ogystal â bod Estyn yn canolbwyntio fwyfwy ar berfformiad ysgolion uwchradd ac Awdurdodau Lleol o ran sicrhau cyrchfannau priodol i bobl ifanc 16 oed a hŷn.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod y strategaeth, fel datganiad o fwriad yn sefyll ar ei ben ei hunan, yn ceisio darparu sylw ar y cyd gan yr holl wahanol wasanaethau oedd yn cyfrannu ato i beth ddigwyddai i bobl ifanc fyddent fel arall efallai ddim yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r 6^{ed} Dosbarth, Addysg Bellach, dysgu ar sail gwaith neu gyflogaeth, ac a fyddent fel arall yn ymddieithrio oddi wrth eu cymunedau a chymdeithas. Fodd bynnag, gyda'r ddogfen graidd roedd hefyd adnoddau ategol i gynorthwyo, fel sail i natur yr ymdrech ar y cyd trwy ddiffinio rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau oedd yn cyfrannu mewn perthynas â phobl ifanc NEET, a chynnig canllawiau o ran gweithrediad y gwahanol systemau cysylltiedig.

Gofynnwyd am eglurhad a oedd y dewis o hyfforddiant galwedigaethol yn cael sylw, a nodwyd y byddai'r holl ddewisiadau priodol yn wir yn rhan bwysig o'r strategaeth. Dywedwyd wrth y Cabinet y cai adroddiad pellach ei gyflwyno yn yr Hydref, yn rhoi manylion o'r gwaith oedd yn mynd ymlaen yn gyfredol ar wefan wedi'i dylunio'n benodol i gyd-fynd gyda'r strategaeth. Byddai'r llwyfan hwnnw'n darparu mynediad at bob gweithgaredd galwedigaethol ac addysgol oedd ar gael i bobl ifanc, a byddai hefyd ar gael i rieni ac athrawon. Gobeithiai swyddogion gyflwyno model o 'Lwybrau Caerffili' i'r Cabinet yn yr Hydref.

Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd rhoi'r grym i bobl ifanc fedru cael mynediad at y math yma o wybodaeth, gan ei bod yn rhoi'r arfau iddynt fedru gwneud dewisiadau am eu dyfodol ar sail gwybodaeth dda.

Cofnododd y Cabinet eu diolchgarwch i bawb oedd yn ymwneud â'r strategaeth, a'i chroesawu fel fframwaith ar gyfer llwyddiant, yn darparu cyfleoedd i newid bywydau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn, trwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu a Dilyniant (NEET) newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar wneud unrhyw gywiriadau yn y cyfarfod a gynhelir ar 1 Medi 2021.

CADEIRYDD